

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf – Cynllun Gweithredu Adolygiad Thematig Offthalmoleg

Canfyddiad yr adroddiad	Argymhelliad	Ymateb/Cam gweithredu	Swyddog/Sefydliad cyfrifol	Dyddiad cau
Materion sy'n ymwneud â'r broses atgyfeirio cleifion (Atgyfeiriadau Cleifion – y Broses Atgyfeirio)	Rhaid i'r holl bartïon (Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, Bwrdd Gofal Offthalmoleg wedi'i Gynllunio a'r byrddau iechyd) weithio gyda'i gilydd tuag at gyflwyno system electronig ar gyfer trosglwyddo cofnodion cleifion/atgyfeirio cleifion yn uniongyrchol o optometryddion i wasanaethau gofal eilaidd.	Mae trafodaethau ar waith ar hyn o bryd gyda Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a byrddau iechyd ynglŷn â datblygu system cofnodion cleifion electronig ar gyfer Cymru gyfan.	Llywodraeth Cymru	I'w gadarnhau
Roedd Adolygiad Offthalmoleg Cenedlaethol y Cyngor Iechyd Cymuned yn dangos bod rhai cleifion yn teimlo nad oeddent wedi derbyn digon o wybodaeth ynglŷn â'r rheswm dros eu hatgyfeiriad. (Atgyfeiriadau Cleifion – y Broses Atgyfeirio)	Dylai byrddau iechyd weithio gydag optometryddion, trwy grwpiau gofal llygaid lleol, i sicrhau bod cleifion yn derbyn gwybodaeth ddigonol a hygyrch ynglŷn â'r rheswm dros gael eu hatgyfeirio i wasanaeth gofal eilaidd, ac i sicrhau bod pob claf yn teimlo y gwrandewir arno a'i fod yn cael ei gynnwys yn y penderfyniadau a wneir ynglŷn â'i ofal.	Ni chymerodd Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf ran yn yr Adolygiad Offthalmoleg Cenedlaethol ac felly nid oedd dim adborth uniongyrchol i'r bwrdd iechyd prifysgol mewn perthynas â'r mater hwn. Fodd bynnag, mae gan y bwrdd iechyd prifysgol gydberthynas weithio agos gydag optometryddion cymunedol trwy ei grŵp cyswllt optometreg a gofal iechyd llygaid, sy'n caniatáu i'r trafodaethau hyn ddigwydd.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Cymunedol	Mehefin 2017

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf – Cynllun Gweithredu Adolygiad Thematig Offthalmoleg

		Mae Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf yn mynd i gynnal ei adolygiad ei hun o wasanaethau offthalmoleg a bydd cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu mewn ymateb i unrhyw faterion a godir.			
Ansawdd yr atgyfeiriadau sy'n cael eu hanfon at y llwybr mynediad cyflym (Atgyfeiriadau Cleifion – Ansawdd Atgyfeiriadau)	A) Dylai byrddau iechyd ystyried dulliau ar gyfer mireinio atgyfeiriadau i sicrhau bod cleifion yn cael mynediad at y llwybr gofal mwyaf priodol mewn modd amserol ac effeithiol, gan osgoi ymweliadau diangen.	Archwiliad atgyfeirio parhaus gyda'r cynghorydd optometreg i sicrhau bod atgyfeiriadau a llwybrau yn briodol. Bydd cyflwyno system cofnodion cleifion electronig yn cefnogi'r gwaith hwn.	Cynghorydd Annibynnol	Optometreg	Medi 2017
	B) Dylai byrddau iechyd ystyried darparu digwyddiadau/deunyddiau addysgol i godi ymwybyddiaeth o lwybrau atgyfeirio lleol ymhlith optometryddion a staff perthnasol eraill.	Mae'r bwrdd iechyd prifysgol eisoes yn cynnal digwyddiadau addysgol rheolaidd ynghylch llwybrau atgyfeirio gydag optometryddion.	Cynghorydd Annibynnol	Optometreg	Medi 2017
	C) Dylai byrddau iechyd sicrhau y rhoddir adborth i optometryddion pan ofynnir amdano, ynglŷn ag ansawdd yr	Yn ystod y digwyddiad addysgol diwethaf, rhoddodd cynghorydd optometreg y bwrdd iechyd prifysgol adborth i'r rhai a oedd yn bresennol ar	Cynghorydd Annibynnol	Optometreg	Mehefin 2017

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf – Cynllun Gweithredu Adolygiad Thematig Offthalmoleg

	atgyfeiriadau a anfonir, i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu.	ansawdd yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd. Bydd hon yn thema barhaus ar gyfer trafodaeth.		
Diffyg adborth yn cael ei roi i optometryddion yn dilyn atgyfeiriadau a rhyddhau cleifion (Atgyfeiriadau Cleifion – Cyfathrebu yn Dilyn Atgyfeiriadau) (Rhyddhau Cleifion – Ansawdd Gwybodaeth)	A) Dylai byrddau iechyd sicrhau bod adborth ynglŷn â'r diagnosis a'r cynllun triniaeth yn cael ei roi i'r optometrydd a wnaeth yr atgyfeiriad yn dilyn pob atgyfeiriad a wneir i'r gwasanaeth, gan gynnwys p'un a wnaed atgyfeiriad i wasanaeth golwg gwan neu beidio. B) Rhaid i optometryddion ddefnyddio'r ffurflen atgyfeirio briodol a sicrhau bod eu henw a chyfeiriad eu practis yn glir ac yn ddarllenadwy. C) Rhaid i fyrddau iechyd/Llywodraeth Cymru sicrhau bod systemau'n cael eu cyflwyno i gynyddu'r wybodaeth sydd ar gael i optometryddion mewn perthynas â chleifion sydd wedi cael eu rhyddhau o ofal eilaidd.	Mae'r bwrdd iechyd prifysgol yn darparu adborth ar ddiagnosis a thriniaeth cleifion i bob optometrydd sy'n atgyfeirio, fel mater o drefn, yn ogystal ag i feddyg teulu'r cleifion. Anogir optometryddion i ddefnyddio ffurflen atgyfeirio Gwasanaeth Gofal Llygaid Cymru ar gyfer pob atgyfeiriad i'r gwasanaeth offthalmoleg. Caiff ansawdd atgyfeiriadau ei archwilio a darperir adborth. Mae'r bwrdd iechyd prifysgol yn darparu adborth ar ddiagnosis a thriniaeth cleifion i bob optometrydd sy'n atgyfeirio fel mater o drefn, yn ogystal ag i feddyg teulu'r cleifion.	Arweinydd Clinigol ar gyfer Offthalmoleg Cynghorydd Annibynnol Optometrig Arweinydd Clinigol ar gyfer Offthalmoleg	Parhaus Mehefin 2017 Parhaus

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf – Cynllun Gweithredu Adolygiad Thematig Offthalmoleg

Mae'r cyngor iechyd cymuned yn nodi pryderon ynglŷn â diffyg gwybodaeth yn cael ei rhoi o fewn gofal eilaidd cyn triniaeth. (Atgyfeiriadau Cleifion – Cyfathrebu yn Dilyn Atgyfeiriadau)	Rhaid i fyrddau iechyd sicrhau bod cleifion yn derbyn gwybodaeth ddigonol am eu cyflwr ac unrhyw gynllun gofal arfaethedig, cyn unrhyw archwiliad neu driniaeth. Dylai hyn gydymffurfio â'r egwyddorion a amlinellir yng nghanllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ynglŷn â chydysniad gwybodus.	Ni chymerodd Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf ran yn yr Adolygiad Offthalmoleg Cenedlaethol ac felly nid oedd adborth uniongyrchol i'r bwrdd iechyd prifysgol mewn perthynas â'r mater hwn. Fodd bynnag, bydd adolygiad yn cael ei gynnal o'r holl wybodaeth a ddarparwyd i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â chanllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.	Arweinydd Clinigol ar gyfer Offthalmoleg	Mehefin 2017
Pryderon ynglŷn â monitro gosod ar gyfer cleifion sydd angen apwyntiad dilynol (Amserlenni Triniaeth – Targedau)	A) Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y gall Systemau Gweinyddu Cleifion ddarparu data ynglŷn â'r cyfnod cyn yr apwyntiad dilynol a argymhellir gan glinigwyr, a'r cyfnod cyn yr apwyntiad dilynol gwirioneddol, yn ôl llwybr gofal. B) Rhaid i fyrddau iechyd sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu ar gyfer y rhai sydd â'r anghenion gofal mwyaf gyntaf (boed hynny'n gleifion newydd neu apwyntiadau dilynol), gan wneud y defnydd gorau o'r holl sgiliau ac	A) Mae'r bwrdd iechyd prifysgol yn defnyddio Myrddin fel ei system gweinyddu cleifion ac mae'r system hon yn casglu gwybodaeth am gyfnodau cyn yr apwyntiadau dilynol ar hyn o bryd. Byddai system cofnodion cleifion electronig yn gwella hyn trwy ddarparu gwybodaeth glinigol benodol. B) Mae'r bwrdd iechyd prifysgol yn blaenoriaethu cleifion ar sail brys. Fodd bynnag, nid yw'n defnyddio'r system	Llywodraeth Cymru Arweinydd Clinigol ar gyfer Offthalmoleg	I'w gadarnhau Mehefin 2017

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf – Cynllun Gweithredu Adolygiad Thematig Offthalmoleg

	adnoddau sydd ar gael. C) Rhaid i dimau clinigol gofnodi'r drefn apwyntiadau dilynol a ddewisir ar gyfer pob achos yn glir. Dylid gwneud hyn yn gyson yn unol â phrotocolau y cytunir arnynt. Dylid hysbysu'r claf o unrhyw newidiadau i'r cynllun.	blaenoriaethu B1, 2, 3 ar gyfer apwyntiadau. Mae capasiti'n cael ei gyfrifo ar lefel gwasanaeth is-arbenigedd. Nod yr adran offthalmoleg yw cyflawni gwasanaethau cynaliadwy yn unol â disgwyliadau Bwrdd Gofal wedi'i Gynllunio Cymru. C) Mae pob claf yn cael canlyniad clir o bob clinig. Mae angen adolygu ac archwilio protocolau a chanllawiau i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n gyson.	Arweinydd Clinigol ar gyfer Offthalmoleg	Mehefin 2017
Diffyg adrodd am ddigwyddiadau mewn perthynas â pholisi niwed i gleifion Llywodraeth Cymru (Adrodd am Ddigwyddiadau)	A) Rhaid i fyrddau iechyd sicrhau bod mecanweithiau ar waith i adolygu adroddiadau am ddigwyddiadau ac i nodi patrymau posibl sy'n rhoi rhybudd cynnar am fethiannau system mwy difrifol. B) Pan fydd digwyddiadau, rhaid i fyrddau iechyd sicrhau, yn unol â pholisiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â niwed i gleifion, bod y rhai'n cael eu	A) Fel yr amlygwyd yn yr adroddiad, mae'r bwrdd iechyd prifysgol yn adrodd yn unol â diffiniadau ar gyfer graddio digwyddiadau diogelwch cleifion – dim niwed, risg isel, risg gymedrol a risg difrifol – trwy DATIX. B) Eto, fel yr amlygwyd yn yr adroddiad, mae'r bwrdd iechyd prifysgol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru o ran hysbysu am	Arweinydd Clinigol ar gyfer Offthalmoleg Arweinydd Clinigol ar gyfer Offthalmoleg	Parhaus Parhaus

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf – Cynllun Gweithredu Adolygiad Thematig Offthalmoleg

	hadrodd fel digwyddiadau andwyol difrifol.	ddigwyddiadau andwyol difrifol.		
Diffyg capasiti/breuder gwasanaethau oherwydd dibynnu gormod ar ymgynghorwyr. Materion ynglŷn â diffyg capasiti, recriwtio a diffyg buddsoddiad mewn gwasanaethau. (Triniaeth – Capasiti)	A) Rhaid i fyrddau iechyd fod yn rhagweithiol wrth ddatblygu cynlluniau gweithlu sy'n mynd ati i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion yn y capasiti gwasanaeth cyfredol a'r cyfleusterau sydd ar gael ar hyn o bryd i liniaru'r risg i ofal cleifion. Dylai'r cynlluniau hyn geisio cynyddu capasiti i'r eithaf trwy wneud y defnydd mwyaf effeithiol o sgiliau staff meddygol a staff anfeddygol sydd ar gael, yn ogystal â'r lle/cyfleusterau sydd ar gael. B) Rhaid i fyrddau iechyd ystyried ffyrdd i weithio'n agosach gyda chydweithwyr ym maes gofal sylfaenol. Er enghraifft, trwy ddarparu offer (a hyfforddiant) ar gyfer practisau	Ar hyn o bryd, mae'r bwrdd iechyd prifysgol yn defnyddio staff anfeddygol fel y nodir yn y meysydd isod. • Optometryddion mewn clinigau AMD glawcoma a chataractau • Ffotograffwyr meddygol ar gyfer clinigau rhithwir diabetig a retinopathi meddygol ac ym maes llawdriniaeth blastig ocwlar Mae'r bwrdd iechyd prifysgol yn cydnabod bod angen datblygu swyddogaeth nyrs a/neu chwistrellwyr anfeddygol wrth gyflenwi gwasanaeth AMD gwlyb. Mae'r bwrdd iechyd prifysgol wedi darparu cyllid i bob optometrydd brynu offeryn i fesur trwch y gornbilen er mwyn mireinio atgyfeiriadau am glawcoma a gorbwysedd	Arweinydd Clinigol ar gyfer Offthalmoleg Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Cymunedol/Cynghorydd Optometreg Annibynnol	Medi 2017 Mehefin 2017 (y garfan gyntaf)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf – Cynllun Gweithredu Adolygiad Thematig Offthalmoleg

	optometreg i ganiatáu iddynt fireinio atgyfeiriadau a/neu asesu cleifion sefydlog. Mae angen gwneud hyn mewn modd strategol sydd wedi'i gynllunio, o dan reolaeth y bwrdd iechyd.	ocwlar. Mae'r bwrdd iechyd prifysgol yn cefnogi'r gwaith o hyfforddi optometrydd cymuned ym meysydd rhagnodi a thystysgrifau annibynnol mewn gofal glawcoma. Caiff pob datblygiad o'r fath ei drafod a'i gymeradwyo trwy Grŵp Gofal Llygaid y bwrdd iechyd prifysgol a chaiff materion yn ymwneud â chontract eu trafod gan y grŵp cyswllt optometreg.		
Dylai byrddau iechyd ddysgu o'r profiadau yn dilyn y cynnydd a wnaed mewn mannau eraill (Triniaeth – Mentrau i wella Capasiti)	A) Rhaid i fyrddau iechyd sicrhau eu bod yn llawn ymgysylltu â Bwrdd Gofal Offthalmoleg wedi'i Gynllunio i gynorthwyo yn y broses o rannu dysgu â staff mewn ardaloedd eraill. B) Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes angen datblygu dulliau o weithredu eraill i annog dysgu rhwng byrddau iechyd yn ogystal â dulliau mwy integredig i fynd i'r afael a themâu/problemau	Mae'r bwrdd iechyd prifysgol wedi llawn ymgysylltu â'r Bwrdd Gofal Offthalmoleg wedi'i Gynllunio ar hyn o bryd a bydd hyn yn parhau. Mae Llywodraeth Cymru, trwy raglen 1000 o Fywydau a Mwy, wedi trefnu digwyddiadau cenedlaethol i rannu arfer ac mae digwyddiadau fel "Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol" yn cael eu cynnal sydd hefyd yn rhoi cyfleoedd i rannu'r hyn a ddysgwyd.	Arweinydd Clinigol ar gyfer Offthalmoleg/Rheolwr Gyfarwyddiaeth y Llywodraeth Cymru	Mehefin 2017 I'w gadarnhau

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf – Cynllun Gweithredu Adolygiad Thematig Offthalmoleg

	cyffredin sy'n cael eu profi ledled Cymru. Er enghraifft, cyflwyno chwistrelliadau gan staff anfeddygol.			
Pwysigrwydd Rôl y Cydgysylltydd AMD (Staff Cymorth Gwasanaeth – Cydgysylltwyr AMD)	Oherwydd gofynion y rôl a phwysigrwydd sicrhau bod cydlynnydd AMD ar gael yn gyson, dylai byrddau iechyd ystyried a yw un cydlynnydd AMD yn ddigon ar gyfer y gwasanaeth gofal llygaid.	Mae gan y bwrdd iechyd prifysgol gydgysylltydd AMD ar waith ond mae angen ystyried ei drefniadau ar gyfer staff cyflenwi ar gyfer y swydd hon.	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth	Mehefin 2017
Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid – diffyg defnydd o'r rôl gan staff eraill (Staff Cymorth Gwasanaeth – Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid)	Rhaid i fyrddau iechyd sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o argaeledd y gwasanaeth lleol gan swyddogion cyswllt gofal llygaid. Sicrhau bod gan gleifion fynediad at gyngor a chymorth perthnasol.	Mae gan y bwrdd iechyd prifysgol swyddog cyswllt gofal llygaid yn bresennol ym mhob un o'i glinigau AMD gwlyb ar hyn o bryd ac mae staff yn ymwybodol o'i bresenoldeb a'i rôl.	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth	Parhaus
Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid – Capasiti/argaeledd cyfyngedig (Staff Cymorth Gwasanaeth – Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid)	Dylai byrddau iechyd sicrhau bod swyddog cyswllt gofal llygaid ar gael yn eu clinigau gofal llygaid ar bob adeg, a dylid ystyried a yw un swyddog cyswllt gofal llygaid yn ddigon ar gyfer y gwasanaeth gofal llygaid.	Mae'r bwrdd iechyd prifysgol wedi cyflogi ail swyddog cyswllt gofal llygaid yn ddiweddar sy'n cael ei ariannu gan RNIB. Bydd hyn yn golygu y gellir cynnal mwy o glinigau gofal llygaid a chreu grwpiau cymorth i gleifion. Bydd effaith yr ail swydd yn cael ei gwerthuso'n ffurfiol.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Cymunedol	Rhagfyr 2017

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf – Cynllun Gweithredu Adolygiad Thematig Offthalmoleg

Pryderon a leisiwyd gan staff mewn perthynas â diffyg prosesau ar waith i gyflwyno sylwadau/awgrymiadau i reolwyr byrddau iechyd. (Staff Cymorth Gwasanaeth – Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid)	Rhaid i fyrddau iechyd sicrhau bod dulliau ar waith i ganiatáu i staff leisio unrhyw bryderon/awgrymiadau a allai fod ganddynt ynglŷn â gwella darpariaeth gwasanaeth. Dylai'r broses hon sicrhau bod adborth yn cael ei roi i unigolion yn rheolaidd.	Mae cynrychiolaeth eang ar y Grŵp Gofal Llygaid, sy'n galluogi i unrhyw awgrymiadau gan staff ar bob lefel gael eu dwyn at sylw'r grŵp. Yn ogystal, mae gan y bwrdd iechyd prifysgol swyddogaeth "mae yna sôn" ar ei fewnwyd i unrhyw aelodau o staff wneud sylwadau am wasanaethau; mae'r swyddogaeth hon hefyd yn cynnwys dull ar gyfer rhoi adborth.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Cymunedol	Parhaus
Mae angen rhagor o eglurder ynglŷn â rôl yr optometrydd wrth iddi ddatblygu (Rôl yr Optometrydd)	I wneud defnydd mwy effeithiol o optometryddion, rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu eglurder ar gyfer byrddau iechyd ynglŷn ag yswiriant indemniad, trefniadau adnoddau a chyllid, hyfforddiant/cymwysterau, a mecanweithiau cyfathrebu.	Mae'r bwrdd iechyd prifysgol yn comisiynu gwaith gyda'r optometryddion cymuned o fewn ffiniau canllawiau Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru. Bydd angen cyllid ychwanegol arno i ehangu amrywiaeth y gwasanaethau a ddarperir ganddo. Mae'r optometryddion sy'n seiliedig yn yr ysbyty yn derbyn indemniad gan y bwrdd iechyd prifysgol.	Llywodraeth Cymru	I'w gadarnhau

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf – Cynllun Gweithredu Adolygiad Thematig Offthalmoleg

Mae angen gwneud defnydd ychwanegol o optometryddion er mwyn cynyddu capasiti (enghraifft Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) a lleihau'r baich ar wasanaethau gofal eilaidd. (Y defnydd o optometryddion)	Dylai byrddau iechyd ystyried y defnydd ychwanegol o optometryddion er mwyn cynyddu capasiti a lleihau'r baich ar ofal eilaidd. Bydd angen i fyrddau iechyd sicrhau bod materion yn cael eu hegluro ynglŷn ag yswiriant indemniad, trefniadau adnoddau a chyllid, a hyfforddiant a chyfathrebu ar gyfer optometryddion.	Mae'r bwrdd iechyd eisoes yn defnyddio'r optometryddion cymuned i ddarparu archwiliad yn dilyn cataract trwy gyfrwng Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru. Bydd angen adnoddau ychwanegol i ehangu'r ddarpariaeth hon.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Cymunedol	Mehefin 2017
Cleifion yn methu â chael eu hatgyfeirio bob tro am eu hasesiad golwg gwan cyntaf gan staff gofal eilaidd. (Y defnydd o optometryddion)	Rhaid i fyrddau iechyd sicrhau eu bod yn atgoffa staff am bwysigrwydd atgyfeirio'r holl gleifion cymwys i optometrydd achrededig ar gyfer asesiad golwg gwan.	Mae gan y bwrdd iechyd prifysgol ddarpariaeth dda o ran optometryddion golwg gwan achrededig a gwneir atgyfeiriadau trwy gyfrwng y swyddog cyswllt gofal llygaid a staff clinigol eraill ym maes offthalmoleg. Mae angen hyrwyddo argaeledd y gwasanaeth gofal gwan i weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill mewn gofal sylfaenol a gofal eilaidd. Mae gwaith yn parhau gyda Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru i gynhyrchu taflenni a phosteri wedi'u diweddarau er	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Cymunedol / Cydbwyllgor Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru	Mehefin 2017

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf – Cynllun Gweithredu Adolygiad Thematig Offthalmoleg

		mwyn eu dosbarthu.		
Problemau ynglŷn â chydberthnasau gwael rhwng staff gofal sylfaenol a staff gofal eilaidd yn cael effaith ar y cynnydd ar gyfer datblygiadau gwasanaeth (Y Berthynas rhwng Gofal Sylfaenol a Gofal Eilaidd)	Rhaid i fyrddau iechyd sicrhau bod y staff perthnasol yn ymgysylltu â'r grŵp gofal llygaid lleol. Rhaid i'r grŵp gwrdd yn rheolaidd a chael ei gadeirio gan aelod o'r tîm gweithredol. Un amcan allweddol yw gwella'r gydberthynas weithio rhwng staff gofal sylfaenol a staff gofal eilaidd, er mwyn meithrin mentrau gweithio ar y cyd.	Caiff Grŵp Gofal Llygaid y bwrdd iechyd prifysgol ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Cymunedol ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o feysydd gofal eilaidd a sylfaenol, yr awdurdod lleol, y cyngor iechyd cymuned ac RNIB.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Cymunedol	Parhaus
Codwyd pryderon ynghylch defnyddio gwahanol feini prawf gan wahanol feddygon ymgynghorol. O ganlyniad, golyga hyn fod rhai cleifion yn cael ymweliadau dilynol diangen neu'n cael eu trin heb lawer o obaith o fudd. (Rhyddhau Cleifion – Meini Prawf)	Rhaid i fyrddau iechyd sicrhau bod gan eu gwasanaeth AMD bolisi sy'n amlinellu'r meini prawf ar gyfer rhyddhau cleifion sydd ag AMD gwlyb, yn unol â chanllawiau'r Coleg Brenhinol. Y nod yw sicrhau nad yw cleifion yn aros yn y gwasanaeth yn hwy nag sydd ei angen. Gwneud y defnydd gorau o'r capasiti ar gyfer cleifion sydd fwyaf tebygol o fod ar eu hennill.	Mae gan y bwrdd iechyd prifysgol bolisi clir ar gyfer rheoli AMD gwlyb a chaiff rhai cleifion gydag AMD "sefydlog" ac "aeddled" eu gweld mewn gwasanaeth a arweinir gan optometrydd mewn lleoliad cymunedol cyn cael eu rhyddhau. Mae angen ymestyn y gwasanaeth hwn i leoliadau cymunedol eraill ac mae angen archwilio cydymffurfiaeth â'r polisi.	Cyfarwyddwr Arwain AMD/Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Cymunedol	Medi 2017

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf – Cynllun Gweithredu Adolygiad Thematig Offthalmoleg

	Gallai cydymffurfiaeth â'r polisi ffurfio rhan o'r archwiliad gwasanaeth blynyddol.			
Systemau TG annigonol ar gyfer casglu data defnyddiol. Ychydig iawn o ymwybyddiaeth o ddata capasiti a galw. (Systemau Rheoli Gwybodaeth – cynllunio)	Mae'n rhaid gwneud gwelliannau i systemau rheoli gwybodaeth o fewn byrddau iechyd er mwyn galluogi i ddata (perfformio) capasiti a galw gael ei gasglu'n gywir. Bydd hyn yn caniatáu gwaith mwy gwybodus i gael ei wneud ar gynllunio gweithlu ac yn sicrhau bod darpariaethau adnoddau yn seiliedig ar anghenion y claf.	Mae systemau casglu gwybodaeth wedi cael eu cyflwyno er mwyn bodloni gofynion y Bwrdd Gofal Offthalmoleg wedi'i Gynllunio i sicrhau bod y data galw a chapasiti ar gael. Byddai cyflwyno system cofnodion cleifion electronig yn ategu at hyn.	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth Llywodraeth Cymru	Cwblhawyd I'w gadarnhau
Materion sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth (Systemau Rheoli Gwybodaeth – rhannu gwybodaeth)	Mae'n rhaid gwneud gwelliannau ar wella'r mynediad at wybodaeth am gleifion a'i rhannu o fewn ardaloedd y bwrdd iechyd er mwyn gwella effeithlonrwydd gwasanaethau.	Dim ond trwy gyflwyno system cofnodion cleifion electronig i Gymru gyfan y gellir cyflawni hyn.	Llywodraeth Cymru / Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru	I'w gadarnhau
Diffyg ymwybyddiaeth y cyhoedd o ofal llygaid yn gyffredinol (Ymwybyddiaeth y Cyhoedd)	Mae angen i Lywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a byrddau iechyd ystyried sut y gellir codi	Dyma un o'r camau gweithredu allweddol gan Grŵp Llywio Gofal Llygaid Cymru, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o	Llywodraeth Cymru (Grŵp Llywio Gofal Llygaid Cymru)	I'w gadarnhau

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf – Cynllun Gweithredu Adolygiad Thematig Offthalmoleg

	ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o bwysigrwydd cael profion llygaid rheolaidd a phroblemau gofal llygaid cyffredinol, yn ogystal â'r symptomau i fod yn ymwybodol ohonynt sy'n gysylltiedig â'r cyflyrau llygaid mwy difrifol a phwysigrwydd cael cyngor gofal iechyd buan. Mae angen darparu mwy o wybodaeth am y gwahanol wasanaethau/gweithwyr proffesiynol sydd ar gael i weld/trin cleifion mewn cyswllt â'u cyflyrau gofal llygaid.	Lywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a byrddau iechyd.		
--	--	---	--	--